Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Polisi IVF



**ADRAN DATBLYGU SEFYDLIADOL**

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2023 Adolygu: Gorffennaf 2028

# Rheoli Fersiwn

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer:

☐ Staff Cyngor yn unig ☐ Staff seiliedig mewn ysgolion yn unig ☒ Staff Cyngor a seiliedig mewn ysgolion

| Fersiwn | Newidiadau Allweddol | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2020 | Ailfformatio yn unig | Tîm Rheoli Adrannol |
| Mawrth 2023 | Cynyddu amser bant ar dâl i ddau gylch o Driniaeth IVF | Y Cyngor ar 20/7/23 |

Gall y ddogfen hon gael ei hadolygu a'i diwygio ar unrhyw amser a heb unrhyw ymgynghoriad mewn ymateb i ofynion cyfreithiol, yn unol ag arfer gorau neu mewn ymateb i ofyniad sefydliadol a ble nad yw'r newidiadau yn effeithio ar ysbryd neu fwriad y ddogfen.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Cwmpas ..... 3
3. Y ddarpariaeth sydd ar gael ..... 3
4. Gweithio hyblyg ..... 3
5. Gweithredu cefnogol gan reolwyr ..... 3
6. Salwch yn ystod triniaeth ..... 4
7. Cyfrinachedd ..... 4
8. Gwneud cais am absenoldeb am driniaeth ffrwythlondeb ..... 4

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Cyngor/ysgol yn cydnabod fod triniaeth ffrwythlondeb yn brofiad anodd ac emosiynol ac felly mae'n dymuno rhoi cymaint o gefnogaeth ag sy'n bosibl i gyflogeion tra'u bod yn cael y driniaeth hon.

# 2. Cwmpas

I fod yn gymwys am absenoldeb ar gyfer triniaeth ffrwythlondeb, mae'n rhaid i gyflogeion fod wedi cael eu cyflogi'n barhaus gan y Cyngor/ysgol am 12 mis neu fwy.

Mae hyn yn cynnwys cyflogeion rhan-amser, dros dro a chyfnod penodol, ar ôl y cyfnod cymhwyso o 12 mis.

# 3. Y ddarpariaeth sydd ar gael

I gefnogi cyflogai sy'n cael triniaeth, bydd y Cyngor/ysgol yn rhoi hyd at 2 ddiwrnod o absenoldeb ar dâl. Rhoddir hyn hefyd i bartneriaid y rhai sy'n cael y driniaeth, os oes angen. Mae'r ddarpariaeth hon yn ychwanegol i amser i ffwrdd i fynychu apwyntiad ysbyty.

Gellir cymryd y dyddiau gyda'i gilydd neu ar wahân a gellir hefyd eu cymryd fel hanner dyddiau neu oriau, fel sydd angen, o amgylch apwyntiadau.

Os yw cyflogai angen amser bant tu hwnt i'r dyddiau ar dâl, dylent drafod gyda'u rheolwr yr opsiynau sydd ar gael iddynt yn cynnwys cymryd absenoldeb di-dâl.

Mae amser ar dâl i ffwrdd ar gael ar gyfer hyd at ddau gylch o driniaeth IVF.

# 4. Gweithio hyblyg

Oherwydd natur IVF a thriniaethau ffrwythlondeb arall, sylweddolir y gall fod angen bod yn hyblyg am batrwm gwaith unigolyn a dylai'r cyflogai a'r rheolwr drafod hynny. Gallai cyflogeion sy'n gweithio i'r awdurdod lleol ddefnyddio'r ystod o opsiynau gweithio hyblyg sydd ar gael. Bydd y Rheolwr, mewn ymgynghoriad â chyngor Iechyd Galwedigaethol os oes angen, yn gyfrifol am reoli a chymeradwyo'r hyblygrwydd sydd ei angen gan yr unigolyn yn ystod ac yn dilyn unrhyw driniaethau.

# 5. Gweithredu cefnogol gan reolwyr

Pan hysbysir rheolwr fod cyflogai yn cael neu'n debygol o gael triniaeth, dylent sicrhau y cefnogir y cyflogai dan sylw a'i hysbysu am y darpariaethau a amlinellir yn y polisi hwn.

# 6. Salwch yn ystod triniaeth

Sylweddolir y gall unrhyw un sy'n cael y driniaeth ddioddef o ystod o sgil effeithiau ar ôl cael y driniaeth. Yn yr amgylchiadau hyn os yw cyflogai yn mynd ar absenoldeb salwch, caiff yr absenoldeb ei drin yn unol â Pholisi Rheoli presenoldeb y Cyngor/ysgol.

# 7. Cyfrinachedd

Bydd rheolwyr yn cadw cyfrinachedd llwyr am y mater hwn, ac yn parchu urddas yr unigolyn ar bob amser yn ystod unrhyw driniaeth.

# 8. Gwneud cais am absenoldeb am driniaeth ffrwythlondeb

- Dylai cyflogeion gynghori eu rheolwr eu bod angen absenoldeb cyn gynted ag y gwyddant y byddant yn cael triniaeth.
- Dylai cyflogeion geisio cael cynifer o fanylion am ddyddiadau ac yn y blaen sydd ar gael fel y gellir gwneud trefniadau i weithio o amgylch y driniaeth ac anghenion y gwasanaeth.
- Gellir gofyn i gyflogeion roi cadarnhad o'r driniaeth/apwyntiadau i'w rheolwr.
- Cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, dylid gwneud apwyntiadau ar amserau fydd yn achosi'r tarfu lleiaf ar ddarparu gwasanaeth.